OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 778 (Cy.66)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*24 Mawrth 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*25 Mawrth 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Mehefin 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 11, 203(9) a (10) a 204 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) a pharagraffau 11 a 12 o Atodlen 2 iddi yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mehefin 2009.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "ardal Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board area*") yw'r ardal o Gymru y sefydlir Bwrdd Iechyd Lleol o dan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn ar ei chyfer;

ystyr "dyddiad diddymu" ("*dissolution date*") yw 1 Hydref 2009;

mae i'r ymadrodd "dyddiad gweithredol" yr ystyr a roddir i "*operational date*" ym mharagraff 11(2) o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "dyddiad sefydlu" ("*establishment date*") yw 1 Mehefin 2009; ac

ystyr "prif ardal llywodraeth leol" ("*principal local government area*") yw prif ardal llywodraeth leol yng Nghymru fel y'i disgrifir yn Rhannau I a II o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**2**).

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) 1972 p.70. Amnewidiwyd Rhannau I a II o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.

Sefydlu Byrddau Iechyd Lleol

3. Yn effeithiol o'r dyddiad sefydlu, sefydlir y chwe Bwrdd Iechyd Lleol a restrir yng ngholofn 1 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac fe'u gelwir wrth yr enwau a bennir ar eu cyfer yn yr Atodlen honno.

Ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol

4.—(1) Mae pob ardal Bwrdd Iechyd Lleol yn cyfateb i'r prif ardaloedd llywodraeth leol a bennir ar ei gyfer yng ngholofn 2 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Os yw'r prif ardaloedd llywodraeth leol a bennir ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol o dan baragraff (1) uchod yn cael eu hamrywio, yna mae ardal y Bwrdd Iechyd Lleol i gael ei hamrywio yn unol â hynny.

(3) Nid yw paragraff (2) uchod yn gymwys i'r weithred o greu prif ardal newydd llywodraeth leol, o ddiddymu prif ardal bresennol llywodraeth leol neu o uno dwy brif ardal llywodraeth leol neu fwy.

Dyddiad gweithredol a dyddiad cyfrifyddu Byrddau Iechyd Lleol

5.—(1) Dyddiad gweithredol pob Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlir o dan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yw 1 Hydref 2009.

(2) Dyddiad cyfrifyddu pob Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlir o dan erthygl 3 i'r Gorchymyn hwn yw 31 Mawrth.

Swyddogaethau cyfyngedig cyn y dyddiad gweithredol

6. Rhwng dyddiad ei sefydlu a'i ddyddiad gweithredol, bydd gan bob Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlir o dan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn y swyddogaethau a ganlyn—

(a) ymrwymo i gontractau'r GIG;

(b) ymrwymo i gontractau eraill gan gynnwys contractau cyflogaeth; ac

(c) gwneud y cyfryw bethau eraill ag sy'n rhesymol angenrheidiol i'w alluogi i ddechrau gweithredu'n foddhaol yn effeithiol o'r dyddiad gweithredol ymlaen.

Diddymiadau

7. Diddymir, yn effeithiol o'r dyddiad diddymu, yr un ar hugain o Fyrddau Iechyd Lleol a restrir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a sefydlwyd gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003(**3**).

Diwygiadau i'r Atodlen i Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003

8. Diwygir Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 yn unol ag erthygl 9.

9. Yn effeithiol o'r dyddiad diddymu, dileer yr Atodlen i Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (enwau byrddau iechyd lleol a phrif ardaloedd llywodraeth leol y maent yn cael eu sefydlu ar eu cyfer) a rhodder yn ei lle'r Atodlen yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

(**3**) O.S. 2003/148 (Cy.18), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/1790 (Cy.186).

Edwina Hart
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

24 Mawrth 2009